
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

National Assembly for Wales

Communities, Equality and Local Government Committee

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

15 Rhagfyr 2015

Annwyl Jocelyn

Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft

Yn ein cyfarfod ar 10 Rhagfyr, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â'i adroddiad blynyddol ar gyfer 2014/15.

Yn ystod y sesiwn honno, trafodwyd yr achos dros newid *Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005*, gan gynnwys yr angen am bwerau 'ymchwilio ar ei liwt ei hun' a'r awdurdod i dderbyn cwynion llafar.

Rydym yn ymwybodol o'r gwaith a wnaed hyd yma gan y Pwyllgor Cyllid ar y posibilrwydd o ymestyn pwerau'r Ombwdsmon, ac yn nodi eich bod ar hyn o bryd yn ymgynghori ar Fil drafft. Teimlodd y Pwyllgor ei bod yn bwysig imi ysgrifennu atoch i ddweud ei fod yn cefnogi cyflwyno Bil newydd. Rydym yn gobeithio y bydd y Pwyllgor perthnasol yn bwrw ymlaen â Bil o'r fath fel mater o flaenoriaeth yn y pumed Cynulliad.



Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCCLLL@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCCLLL
0300 200 6565

National Assembly for Wales

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCELG@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCELG
0300 200 6565

Yn gywir,

Christine Chapman

Christine Chapman AC

Cadeirydd

